Y GRAWYS 2

GENESIS 15:1-12, 17-18; SALM 27;
PHILIPIAID 3:17–4:1; LUC 9:28-36

● Gweddi agoriadol

Down ynghyd i addoli Duw Abraham, Duw Jacob a Duw Dafydd. Addolwn yr unig wir Dduw, creawdwr pob peth, Arglwydd pob peth, ein grym a'n gobaith, ein goleuni a'n hiachawdwriaeth. Down ynghyd yn deulu, wedi ein huno â dwylo cymdeithas, brodyr a chwiorydd ein Tad nefol.

● Moliant

Am beth mwy y gallem ofyn
na chael syllu ar dy harddwch
gyda llygaid a chalon ffydd
wrth i ni ddal i deithio gyda thi?
Ar adegau llawnder
ac adegau prinder,
mewn mannau uchel ac isel,
cedwi ni yn ddiogel,
ein cysgodi rhag cam.

Am beth mwy y gallem ofyn
na chael syllu ar dy harddwch
gyda llygaid i weld a gobaith
wrth i ni deithio gyda thi?

Ar adegau amau
a ffydd frau,
yn dioddef ac mewn poen,
fe'n cofleidi'n dynn.
Beth allwn ofni?

Am beth mwy y gallwn ofyn
na chael syllu ar dy harddwch?

● **Cyffes**
Mae'r llwybr a gerddwn
yn orlawn yn aml o atyniadau
sy'n achosi i ni faglu.

Arweinydd: Dysga dy ffordd i ni, O Arglwydd
Pawb: Ac fe ddilynwn yn ôl dy droed.

Mae'r llwybr a gerddwn
yn aml yn cael ei ddewis
heb fawr o feddwl
am y pen draw.

Arweinydd: Dysg dy ffordd i ni, O Arglwydd
Pawb: Ac fe ddilynwn yn ôl dy droed.

Mae'r llwybr a gerddwn
yn aml wedi'i gymylu
â diffyg ffydd
a gwamalrwydd.

Arweinydd: Dysga dy ffordd i ni, O Arglwydd
Pawb: Ac fe ddilynwn yn ôl dy droed.

● Diolch

Gyda'th bresenoldeb yn ein hymyl,
pwy all faglu?
Rwyt yn ein harwain o dywyllwch
i fannau brafiach,
dyddiau newydd sbon
a chyfleoedd.

Gyda'th bresenoldeb yn ein hymyl,
pwy all faglu?
Deui â ni o le cyfarwydd
i fannau cyffrous,
ac yn lle ofn
rhoi posibiliadau.

Gyda'th bresenoldeb yn ein hymyl,
pwy all faglu?
Fe'n harweini i gysgodi
mewn llefydd heddychlon
yn ystod stormydd bywyd
a'i helbulon.

Am dy bresenoldeb,
dy arweiniad,
dy gysgod,
diolchwn i ti, Arglwydd.